



Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru North Wales Fire and Rescue Service

SWYDD DDISGRIFIAD

TEITL Y SWYDD	Diffoddwr Tân Gwledig y System Ddyletswydd Amser Cyflawn (WDS)	CYFEIRNOD Y SWYDD	
ADRAN	Gweithrediadau	DYDDIAD	Ionawr 2019
ATEBOL I	Rheolwr Canllawiau Gweithredol	GRADDFA GYFLOG	Diff. Tân Llyfr Llwyd
LLEOLIAD	Amrywiol ar draws Gogledd Cymru	ORIAU'R WYTHNOS	42

DIBEN CYFFREDINOL Y SWYDD

Darparu gofal gweithredol hyblyg mewn amrywiaeth o orsafoedd tân gwledig ledled Gogledd Cymru er mwyn cynorthwyo i gyflawni'r cynllun argaeledd.

PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

1.	Ymateb i argyfyngau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau gweithredol GTAGC.
2.	Cynnal profion safonol, gwiriadau ar gerbydau, rhestrau stoc a gwaith arall yn yr orsaf lle mae wedi'i leoli, er mwyn sicrhau bod ymateb gweithredol yn barod.
3.	Mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion neu brinder yn yr orsaf lle mae wedi'i leoli, a hynny drwy weithdrefnau y cytunwyd arnynt yn GTAGC (cais OPS 4 / Storfeydd).
4.	Gwneud amrywiaeth o weithgareddau a allai fod yn angenrheidiol i gynorthwyo'r Rheolwr Argaeledd i sicrhau bod digon o sgiliau ar gael ar yr orsaf lle mae wedi'i leoli.
5.	Cysylltu ac ymgynghori â'r Rheolwr Argaeledd yn ddyddiol i gynorthwyo i oresgyn unrhyw heriau sy'n wynebu'r ddarpariaeth argaeledd.
6.	Cynnal ymweliadau gweithredol i gael gwybodaeth, a hynny dan gyfarwyddyd y Rheolwr Risg a Chydnerthedd Gweithredol, a rhoi'r holl wybodaeth yn y system RMS.
7.	Blaenoriaethu a rheoli llwyth gwaith er mwyn cadw at derfynau amser.
8.	Ceisio arweiniad ar unrhyw faterion gweithredol y mae'n rhaid iddo/iddi ddelio â nhw ac sydd y tu allan neu'r tu hwnt i'w cymhwysedd cyfredol.
9.	Mynychu unrhyw gyrsiau a datblygiadau y gallai'r Pennaeth Ymateb enwebu'r unigolyn ar eu cyfer er mwyn gwella ei gymhwysedd cyffredinol.
10.	Llenwi'r cofnodion trosglwyddo electronig yn yr orsaf er cynorthwyo'r Rheolwr Gwylfa lleol (gweithgareddau ac amser a dreuliyd - V/Tân/Cofnodion Trosglwyddo ar Orsaf).
11.	Cynnal gwiriadau 'diogel ac iach' yn ardal yr orsaf lle mae wedi'i leoli, a hynny yn unol â gweithdrefn GTAGC.
12.	Sicrhau bod yr holl offer ac adeiladau yn lân, taclus a diogel.

PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

13.	Cydymffurfio â rheoliadau'r Gwasanaeth, ac ymddwyn mewn ffordd sy'n gyson ag amcanion a Gwerthoedd Craidd y Gwasanaeth wrth ddelio â chydweithwyr ac aelodau o'r cyhoedd.
14.	Gwneud unrhyw waith prosiect arall fel y cytunir â'r Pennaeth Ymateb.
15.	Gwneud unrhyw weithgareddau rhesymol eraill yn unol â map swydd Diffoddwr Tân.

CYFRIFOLDEBAU GORUCHWYLIO

Dim.

CYFRIFOLDEBAU ARIANNOL

Dim.

CYSWLLT Y TU ALLAN I'CH ADRAN

Gweithwyr mewn adrannau eraill ac aelodau o'r cyhoedd.

GOFYNION IEITHYDDOL

Cymraeg – Lefel 2 – Yn mynnu eich bod yn gallu:
Deall y rhan helaeth o sgwrs yn y gwaith. Ymateb i geisiadau syml yn ymwneud â'r gwaith a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol. Gofyn cwestiynau syml a deall atebion. Rhoi barn mewn modd cyfyngedig, cyn belled â bod y testun yn gyfarwydd. Deall cyfarwyddiadau pan fo iaith syml yn cael ei defnyddio.

GWIRIADAU CYFLOGAETH / GOFYNION PENODOL

DBS Sylfaenol.

HYFFORDDIANT HANFODOL

Bydd rhaid i'r sawl a benodir fod yn Ddiffoddwr Tân cymwys, a bod wedi cwblhau'r BTEC mewn Gweithrediadau Diffoddwr Tân yn y Gymuned NVQ Lefel 3 neu gymhwyster cyfwerth ar gyfer Diffoddwr Tân cymwys.

ARALL

Dim.

MANYLION Y PERSON
Asesiad o'r gofynion a chymwyseddau recriwtio

TEITL Y SWYDD	Diffoddwr Tân Gwledig y System Dyletswydd Amser Cyflawn (WDS) 42 awr
----------------------	--

CYMWYSERAU, GWYBODAETH, PROFIAD	HANFODOL
	Hebddynt, ni ellir penodi'r unigolyn
	Bod wedi cwblhau, neu fod yn barod i gwblhau, y broses datblygiad i gymhwysedd ar gyfer swydd Diffoddwr Tân fel rhan o'r broses ddethol.
	Ymwybyddiaeth o weithgareddau a swyddogaethau craidd gwasanaeth tân ac achub, yn genedlaethol a lleol.
	Trwydded yrru lawn a chyfredol.
	Bod wedi'i gyflogi ar hyn o bryd fel Diffoddwr Tân gan Wasanaeth Tân ac Achub Awdurdod Lleol.
DYMUNOL	
Rhinweddau ychwanegol y gellir eu defnyddio i wahaniaethu rhwng ymgeiswyr sydd yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol	
Profiad o ddarparu ymateb gweithredol mewn nifer o wahanol leoliadau.	

SGILIAU	HANFODOL
	Hebddynt, ni ellir penodi'r unigolyn
	Prawf o sgiliau cyfathrebu, yn ysgrifenedig ac ar lafar, ag amrywiaeth o gynulleidfaoedd.
	Gallu deall, cofio, defnyddio a mabwysiadu gwybodaeth berthnasol mewn ffordd drefnus, ddiogel a systematig.
	Sgiliau TG canolradd a phrofiad o ddefnyddio pecynnau Microsoft
	Gallu meithrin perthynas waith effeithiol â phobl ar bob lefel.
	Gallu rheoli amser, gosod blaenoriaethau, cynllunio a threfnu llwyth gwaith i gwrdd ag amserlenni.
	Gallu gweithio'n hyblyg o fewn yr amodau gwasanaeth, pan fo angen.
	Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg (Lefel 2) neu gyrraedd y lefel hon o fewn y cyfnod prawf (rhoddir pob cefnogaeth a hyfforddiant, fel y bo'n briodol).
	DYMUNOL
	Rhinweddau ychwanegol y gellir eu defnyddio i wahaniaethu rhwng ymgeiswyr sydd yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol
Bod wedi cwblhau Dyfarniad Lefel 3 Dyfarniadau SFJ mewn Rheolaeth Gychwynnol ar Ddigwyddiadau yn y Gwasanaethau Tân ac Achub, neu gyfwerth.	
Bod yn yrrwr cymwys ar beiriant tân argyfwng.	
Bod wedi cael hyfforddiant Tîm Achub o Ddŵr Math C, D neu E, yn unol â dogfen DEFRA 'Flood Rescue Concept of Operations 2012'.	

GOFYNION PERTHNASOL ERAILL	HANFODOL
	Hebddynt, ni ellir penodi'r unigolyn
	Deall a pharchu gwahaniaethau ymysg pobl, ac ymrwymiad i ddefnyddio dull teg wrth ymdrin â phobl eraill.
	Ymrwymiad a gallu i ddatblygu eich hun a phobl eraill.
	Gallu cadw agwedd hyderus a chadarn mewn sefyllfaoedd hynod heriol.
	Agored i newid, ac awydd i geisio cefnogi newid.
	Dull rhagweithiol a brwdfrydig, gyda'r gallu i weithio heb oruchwyliaeth ar adegau.
	Gallu cael canlyniadau boddhaol i Wiriad DBS Sylfaenol.
	DYMUNOL
Rhinweddau ychwanegol y gellir eu defnyddio i wahaniaethu rhwng ymgeiswyr sydd yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol	
Dim.	